

Nodiadau Canllaw: Cyfrifoldeb Perchennog Tir am y Rhwydwaith

Rhan III: Cyfrifoldeb perchennog tir am y rhwydwaith

Fel arfer, fe fydd y Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw arwyneb unrhyw hawl tramwy cyhoeddus sydd wedi ei wro ond mae gan berchnogion tir rai cyfrifoldebau am lwybrau cyhoeddus sy'n croesi eu tir. Credwn ei bod yn werth atgoffa darpar ymgeiswyr am y rhain fel y gellir ystyried atebolrwydd yn y dyfodol pan fo llwybr newydd yn cael ei gynnig.

Llystyfiant

Rhaid i berchennog tir sicrhau nad yw llystyfiant o dir bob ochr i'r hawl tramwy ddim yn gwyro drosodd neu yn dod drosodd i'r llwybr cyhoeddus. Os yw llwybr i gael ei amgáu gan wrychoedd, neu yn rhedeg ger gwrych neu goetir, yna bydd y gwaith o dorri llystyfiant yn ôl yn rheolaidd yn gyfrifoldeb sy'n parhau ar ran y perchennog tir neu'r deilydd ble mae'r tyfiant wedi ei blannu. Dylid bod yn ofalus i sicrhau bod digon o le uwchben a bod o leiaf 3.6 metr (12 troedfedd) yn cael ei gadw uwchben. Dylid symud unrhyw goeden neu gangen sy'n syrthio ar draws hawl tramwy gan berchennog y goeden. Os yw perchennog tir yn methu cadw llystyfiant yn ôl yna mae gan yr Awdurdod y pŵer i gyflwyno hysbysiad iddo i wneud hynny, ac os na fydd yn gwneud hyn gall yr Awdurdod ymgymryd â'r gwaith a chodi am y gost o wneud hynny (Adran 154, Deddf Priffyrdd 1980).

Aredig a chnydau

Mae hawl i aredig dros lwybr troed neu lwybr ceffyl os yw'n rhedeg ar draws cae, ar yr amod nad yw hi'n rhesymol o gyfleus i osgoi tarfu ar arwyneb y llwybr. Dylid adfer llwybr troed cyn pen 14 diwrnod ac i leiafswm lled o 1 fetr gan adfer llwybr ceffyl i leiafswm lled o 2 fetr cyn pen 14 diwrnod o'r ymyrraeth gyntaf i hau cnwd, a chyn pen 24 awr mewn unrhyw achos arall. Bydd y tarfu posib ar ddefnyddwyr y llwybr a achosir drwy aredig hawl tramwy yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried cyn cymeradwyo gwyrriad, ond wedi ei gymeradwyo dylai berchnogion tir fod yn ymwybodol fod yr hawl i aredig yn dod law yn llaw â'r cyfrifoldeb i adfer y llwybr. Mae hi'n drosedd ymyrryd ag arwyneb llwybrau talar - y rhan o'r cae a ddefnyddir i droi peiriannau fferm ar gyfer trin y tir.

Bydd unrhyw lwybr sy'n rhedeg drwy gae o gnydau (ac eithrio glaswellt) yn gorfod cael ei gadw'n glir drwy dorri neu chwistrellu lled y llwybr.

Strwythurau

Mae perchnogion tir a deiliaid yn gyfrifol am gynnal a chadw giatiau a strwythurau eraill ar hawl tramwy. Dylid eu hatgyweirio neu eu newid pan fo angen i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hawdd i'w defnyddio. Gallwn roi cyngor a chymorth pan fo angen newid strwythurau. Ni ddylid codi unrhyw strwythurau newydd oni bai eu bod eisoes wedi eu hawdurdodi gennym.

Da byw

Nid yw'r cyhoedd a da byw bob amser yn cymysgu. Mae dyletswydd ar bob rheolwr tir i beidio rhoi iechyd a diogelwch unigolion nad ydynt yn eu cyflogaeth mewn perygl. Mae rheolau penodol yn ymwneud â theirw. Mae hi'n drosedd cadw unrhyw darw mewn cae sy'n cael ei groesi gan hawl tramwy oni bai i) fod yr anifeiliaid o dan 10 mis oed, neu ii) nad yw yn frid godro cydnabyddedig a'i fod yn rhydd gyda gwartheg neu heffrod.

Rhwystrau

Nid oes angen dweud na ddylai hawliau tramwy gael eu rhwystro, hyd yn oed dros dro, ac mae hi hefyd yn drosedd i godi arwyddion neu weithredu mewn modd fel y bwriedir camarwain neu atal aelodau o'r cyhoedd rhag defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus.

Carem atgoffa perchnogion tir fod cynnal a chadw llwybr rhydd ar hyd hawl tramwy yn weithgaredd fferm allweddol sy'n syrthio o fewn rheolau trawsgydymffurfio Tir Gofal. Mae'r Cyngor, fel corff gorfodi perthnasol, yn adrodd am unrhyw dor amodau i'r cynllun Tir Gofal a byddant hwy wedyn yn ystyried gostyngiad mewn tâl.

Diddymu

Gellir diddymu hawl tramwy ond dim ond

- **os nad oes ei angen gan y cyhoedd a**
- **bod yr amgylchiadau yn gyfleus i'w gau.**

Nid yw Gorchmynion Diddymu yn cael eu llunio'n aml iawn. Os ydych yn ystyried gwneud cais am orchymyn argymhellwn eich bod yn siarad gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Ardal perthnasol yn gyntaf.

Creu Hawliau Tramwy Newydd

Mae hi'n bwysig fod ein rhwydwaith hawliau tramwy yn cwrdd ag anghenion pobl sy'n dymuno ei defnyddio.

Byddwn yn cysylltu â pherchnogion tir mewn ymgais i sicrhau eu bod yn dynodi hawliau tramwy newydd pan fo angen yn cael ei nodi. Gallwn hefyd dderbyn cynigion gan berchnogion tir i ddynodi llwybrau a byddwn yn derbyn hawliau tramwy newydd sydd o fudd i'r cyhoedd. Byddwn yn talu costau cyfreithiol rhesymol i'r perchennog tir mewn cysylltiad ag unrhyw ddynodiadau gwirfoddol.

Unwaith y bydd dynodiad llwybr wedi ei dderbyn gan y Cyngor byddwn yn dod yn gyfrifol am arwyddo a chynnal a chadw'r llwybr.

Ble nad yw hi'n bosibl cael dynodiad gwirfoddol i hawl tramwy ble mae'r angen wedi ei brofi, mae gan y Cyngor y pŵer i greu hawl tramwy newydd hyd yn oed os yw hynny yn erbyn dymuniadau'r perchennog tir. Gall iawndal fod yn daladwy i'r rhai sy'n berchen ar y tir ble mae'r hawl tramwy wedi ei greu. Mae gan Barc Cenedlaethol Eryri hefyd y pŵer i greu gorchmynion creu yn ei ardal.

Gall hawliau tramwy newydd hefyd ddigwydd drwy'r broses gynllunio.

Cynllunio a Hawliau Tramwy

Nid yw cymeradwyo caniatâd cynllunio yn newid unrhyw hawliau mynediad blaenorol oedd yn croesi'r tir. Os oes angen symud neu ddiddymu llwybr er mwyn i'r datblygiad ddigwydd rhaid llunio gorchymyn cyfreithiol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, cyn cwblhau'r datblygiad.

Bydd y gorchymyn hwn yn cael ei lunio gan yr Awdurdod Cynllunio priodol. Gallai hwn fod yn Gyngor Gwynedd neu yn Barc Cenedlaethol Eryri.

Mae'n rhaid ymgynghori â ni am unrhyw ddatblygiad arfaethedig sy'n adeiladu ar neu gerllaw hawl tramwy fydd yn effeithio ar yr hawl tramwy.

Byddwn yn ceisio sicrhau fod lle agored digonol a chyfleusterau mynediad eraill yn cael eu darparu gan y datblygiad, ac os yn briodol byddwn yn gofyn am ddynodiad hawliau tramwy newydd neu ddiwygiedig.